Ffermio Organig

Mae'r llyfryn hwn yn amlinellu egwyddorion sylfaenol ffermio organig ac yn egluro'r broses drosi'n organig, gan gynnwys grantiau a chymorth arall a allai fod ar gael. Mae wedi'i gyhoeddi gan Ganolfan Organig Cymru, sy'n cydgysylltu darpariaeth cyngor a gwybodaeth i ffermwyr ledled Cymru.

Canolfan Organig Cymru
Organic Centre Wales

Canolfan Organig Cymru,
Sefydliad Gwyddorau Biolegol,
Amgylcheddol a Gwledig,
Prifysgol Aberystwyth, SY23 3AL
Ffôn: 01970 622248
Ffacs: 01970 622238
Ebost: organic@aber.ac.uk
www.organic.aber.ac.uk

GWASANAETH
GWYBODAETH
TROSIADAU
Organig

Llinell Gymorth
Ffôn: 01970 622100
Ebost: organic-helpline@aber.ac.uk
Gall galwadau gael eu monitro er mwyn hyfforddiant.

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Canolfan Organig Cymru
Organic Centre Wales

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Mae ffermio organig yn wahanol i systemau ffermio eraill oherwydd ei fod yn cael ei ddisgrifio gan un o Reoliadau'r UE, sy'n diffinio cynnyrch a gaiff gael ei labelu'n organig. Os ydych yn meddwl am fynd yn organig, mae'n bwysig sylweddoli bod safonau'n esblygu i ddod â systemau ffermio organig yn agosach i'r egwyddorion a amlinellir isod.

Egwyddorion ffermio organig

Mae ffermio organig wedi'i danategu gan set o egwyddorion arweiniol, wedi'u llunio gan Ffederasiwn Rhyngwladol Mudiadau Amaethyddol Organig (IFOAM). Y rhain yw:

- *yr egwyddor iechyd:* Dylai amaethyddiaeth organig gynnal a gwella iechyd y pridd, planhigion, anifeiliaid a phobl fel un cyfanrwydd anwahanadwy. Fel y cam cyntaf yn y gadwyn hon, mae sicrhau iechyd y pridd yn bwysig iawn.
- *yr egwyddor ecoleg:* Dylai amaethyddiaeth organig gael ei seilio ar systemau a chylchoedd ecolegol byw, gan gydweithio â nhw a helpu i'w cynnal. Mae cynhyrchu bwyd ei hun yn elfen o'r ecoleg leol. Y mwyaf cydnaws y mae'r broses gynhyrchu â'r ecoleg honno, lleiaf i gyd y posibilrwydd y bydd problemau difrifol yn codi.
- *yr egwyddor tegwch:* Dylid adeiladu amaethyddiaeth organig ar gysylltiadau sy'n sicrhau tegwch ynglŷn â'r amgylchedd cyffredin a chyfleoedd bywyd. Mae'r egwyddor hon yn cydnabod materion dynol a chymdeithasol yn ogystal â phryderon amgylcheddol.
- *yr egwyddor gofal:* Dylid rheoli amaethyddiaeth mewn dull rhagofalus a chyfrifol i ddiogelu iechyd a lles cenedlaethau'r presennol ac yn y dyfodol ynghyd â'r amgylchedd. Mae hyn yn golygu meddwl y tu hwnt i'r lle a'r amser sydd ohoni.

Priodoleddau systemau ffermio organig

Mae systemau ffermio organig yn ymwneud â rhoi'r egwyddorion hyn ar waith. Maent yn dibynnu'n fwy ar adnoddau adnewyddadwy lleol neu'r rheini sydd wedi'u creu ar y fferm ac yn llai ar fewnbynnau allanol. Maent hefyd yn dibynnu ar brosesau ecolegol neu fiolegol i ddarparu maeth, i ddiogelu rhag plâu a chlefydau ac i sicrhau enillion ariannol priodol.

Rheoli'r pridd a ffrwythlondeb

Nod sylfaenol rheoli ffrwythlondeb y pridd yw cynnal lefelau deunydd organig y pridd, annog gweithgarwch biolegol y pridd a defnyddio ymyrraeth fecanyddol yn ofalus i hyrwyddo, cynnal a gwella'r ffrwythlondeb hirdymor. Nod system organig yw bod yn hunangynhaliol ac fel arfer mae ffrwythlondeb yn cael ei ddarparu gan dail anifeiliaid, nitrogen codlysol a gwrteithiau gwyrdd. Mae'r maethynnau hyn ar gael i'r planhigyn yn sgil gweithredoedd micro-organeddau, gan bwysleisio pwysigrwydd pridd iach, sy'n weithredol yn fiolegol. Lle'r ydych yn gallu dangos bod problem ffrwythlondeb, mae'r safonau organig yn caniatáu defnyddio rhai gwrteithiau, sy'n tueddu i fod yn fformwleiddiadau sy'n rhyddhau P a K yn araf megis ffosffad y graig neu welliannau i'r pridd megis calch.

Cylchdroadau

Wrth graidd cynhyrchu cnydau organig mae cylchdro cnydau sydd wedi'i gynllunio a'i weithredu'n gywir ac iddo nifer o swyddogaethau gan gynnwys:

- darparu digon o faethynnau cnydau a lleihau eu colledion
- darparu nitrogen trwy gnydau codlysol
- cynnal deunydd organig, gweithgarwch microbaidd a strwythur y pridd
- rheoli problemau chwyn, plâu a chlefydau
- darparu cynnyrch proffidiol o ran cnydau gwerthu a/neu gynhyrchion da byw organig

Ar ffermydd tir glas, gellir cael amrywiaeth mewn tir pori parhaol ac o dan bori garw lled-naturiol ac felly, mae'r rhain yn gallu cael eu gweld fel dewisiadau derbyniol i gylchdroadau.

Diogelu cnydau

Mae plâu, chwyn a chlefydau'n cael eu rheoli trwy gylchdroadau, dewis amrywogaethau cnydau, amseru trin y tir a rheoli cynefinoedd i annog poblogaeth o ysglyfaethwyr a pharasitiaid naturiol. Lle y bydd y mesurau hyn yn methu, gellir defnyddio nifer cyfyngedig o gynhyrchion cymeradwy at ddiogelu cnydau a hynny mewn dull a reolir.

Da byw

Mae da byw yn rhan annatod o'r rhan fwyaf o ffermydd organig, er bod rhai systemau llwyddiannus sydd heb stoc.

Cynhelir mentrau da byw organig gan adnoddau'r fferm ei hun cyn belled ag sy'n bosibl ac maent wedi'u seilio ar y tir. Ni chaniateir systemau sy'n dibynnu ar gartrefu dwys, sy'n gofyn bod cyfran fawr o'r porthiant yn cael ei brynu o'r tu allan a/neu sy'n mynd â gwrteithiau oddi ar y fferm i'w gwaredu. Rhaid i foch a dofednod gael eu cadw ar y maes ac mae'r cyfraddau stocio'n is o lawer na llawer o systemau confensiynol.

Mae safonau organig i ddefaid a gwartheg yn gofyn bod y dogn porthiant yn 100% organig a bod o leiaf 60% o'r deunydd sych yn dod o borthiant ffres neu wedi'i gadw. Gall cynhyrchwyr moch a dofednod ddefnyddio maint penodol o gynhwysion anorganig, os ydynt yn gallu dangos nad yw cyflenwadau organig ar gael a bod ganddynt ganiatâd ymlaen llaw gan eu corff ardystio. Ar hyn o bryd, caniateir uchafswm o 10% o borthiant anorganig ar gyfer y mentrau hyn, ond bydd hwn yn cael ei leihau yn 2010. Erbyn 2012, bydd rhaid i'r holl borthiant fod yn organig.

Rhaid i bob anifail sy'n cael ei ladd ar gyfer ei gig gael ei eni a'i fagu ar ddaliad organig – ni cheir gwerthu'n organig loi na da stôr sydd wedi'u prynu gan fferm gonfensiynol.

Iechyd anifeiliaid

Mae iechyd anifeiliaid mewn systemau organig yn dibynnu ar hwsmonaeth dda a rheoli ataliol ac un o ofynion ardystio organig yw cynllun iechyd anifeiliaid. Y nod yw cynnal diadellau a buchesau caeedig, a bridio a magu unrhyw anifeiliaid cadw lle bo'n bosibl, ond ceir cyfleoedd i brynu a gwerthu stoc stôr a magu i gynhyrchwyr organig eraill. Ni chaniateir defnyddio gwrthfiotigau, moddion rhag llyngyr na brechlynnau fel mater o drefn er bod cynhyrchion penodol yn cael eu caniatáu ar ffermydd lle y mae problem gydnabyddedig. Gellir defnyddio meddyginiaethau confensiynol – ac mae'n rhaid eu defnyddio – lle y mae angen atal salwch neu ddioddefaint hirfaith. Mae cyfnodau cadw hirach o'r gadwyn fwyd yn ofynnol o dan safonau organig ac mae cyfyngiadau ar sawl gwaith y ceir defnyddio triniaethau confensiynol.

Buddion ffermio organig

Mae systemau organig yn ceisio lleihau effaith y system ffermio ar yr amgylchedd ehangach gan gynorthwyo wrth warchod bywyd gwyllt a chynefinoedd naturiol, yn benodol:

- mwy o fioamrywiaeth ar ffermydd ac felly yn y dirwedd yn gyffredinol
- gwelliant i nodweddion ffisegol y pridd
- lefelau is yn erydiad y pridd
- llai o lygredd nitrad
- cyfyngiad ar ddefnyddio plaladdwyr
- llai o allyriadau amonia, carbon deuocsid a methan
- llai o lefelau gwastraff a reolir
- effeithlonrwydd ynni uwch
- gwell lles anifeiliaid
- gwell effeithlonrwydd dŵr a gwelliannau i ansawdd dŵr.

Safonau organig

Mae'r safonau organig yn cynnwys pob agwedd ar gynhyrchu organig o driniaethau pridd a bwydydd anifeiliaid i gynlluniau iechyd a rheoli tail. Gosodir y safonau gofynnol gan yr Undeb Ewropeaidd a'u dehongli gan DEFRA o dan arweiniad y Pwyllgor Cynghori ar Safonau Organig (ACOS).

Sefydliadau preifat yw cyrff ardystio organig, sydd wedi'u cymeradwyo gan DEFRA ac sy'n gyfrifol am fonitro'r safonau ar lefel y fferm. Rhaid i chi fod yn gofrestredig ag un o'r cyrff ardystio os ydych yn dymuno gwerthu cynnyrch yn organig neu hawlio taliadau cymorth organig. Gweler Taflen Ffeithiau 9 am wybodaeth bellach ar ardystio.

Trosi'n organig

Pan fyddwch yn trosi o system gonfensiynol i un organig, mae 'cyfnod trosi' lle y rheolir y tir yn unol â safonau organig, ond ni allwch eto werthu'ch cynhyrchion yn organig. Dwy flynedd fan leiaf yw'r cyfnod hwn. Bydd yn rhaid i chi benderfynu ar strategaeth drosi; naill ai gallwch drosi'r tir a'r da byw'r un pryd, sy'n cael ei alw'n drosi cydamserol, neu gallwch drosi'r da byw ar ôl i'r tir gyrraedd statws organig. Un o ofynion ardystio yw'ch bod yn paratoi cynllun trosi ysgrifenedig, gan gynnwys cynlluniau cnydio manwl, cylchdroadau a chynllun rheoli da byw.

Meddwl am fynd yn organig?

Mae cynhyrchwyr yn trosi'n organig am lawer o resymau ac mae'r goblygiadau'n wahanol i bob system ffermio unigol. Dilynwch y camau hyn yn ofalus i wneud yn siŵr bod gennych ddealltwriaeth gadarn o beth sydd ynghlwm â throsi a'ch bod yn elwa ar yr holl gymorth sydd ar gael i'ch helpu chi wrth benderfynu.

Ceir manylion a chysylltiadau sefydliadau a gwasanaethau y sonnir amdanynt yn yr adran yng nghefn y llyfryn.

1. Deall beth sydd ynghlwm

Gwasanaeth di-dâl a ariennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yw Gwasanaeth Gwybodaeth Trosiadau'n Organig (OCIS), sy'n:

- eich helpu i ystyried goblygiadau Trosi'n organig i'ch system ffermio;
- darparu cipolwg ariannol i roi rhyw syniad i chi am effaith economaidd Trosi'n organig;
- helpu ffermwyr sy'n penderfynu trosi'n organig i baratoi eu ceisiadau i'r corff ardystio organig o'u dewis.

Mae OCIS yn cynnwys mynediad i linell gymorth, pecyn gwybodaeth ac ymweliadau cynghori ar y fferm. Ffoniwch linell gymorth Canolfan Organig Cymru am fwy o fanylion.

2. Cynlluniwch yn ofalus

Gall Cyswllt Ffermio dalu rhan o gost paratoi Cynllun y Fferm Gyfan, y gellir ei ddefnyddio i ddarparu cynllun manwl ar gyfer Trosi'n organig sy'n cynnwys y system ffermio a goblygiadau ariannol y trosi. Mae Cydgysylltwyr Cyswllt Ffermio ar gyfer Cynllun y Fferm Gyfan, sydd wedi'u lleoli yn eich Swyddfa Ranbarthol leol, a staff y Ganolfan yn gallu'ch helpu i benderfynu ar gwmpas a chynnwys eich cynllun gan adnabod mentoriaid addas i wneud y gwaith. Mae Cyswllt Ffermio hefyd yn cynnig cymorth i fusnesau cymwys wrth ateb gofynion trawsgydymffurfio a dilyn rheoliadau amgylcheddol. Gall ymweliadau â ffermydd ynghyd â chymorth a hyfforddiant arbenigol gan gynghorwyr cymeradwy hefyd ddarparu cyngor cyfrinachol ar y fferm.

3. I'r priffyrdd a'r caeau â chi!

Does dim byd tebyg i gyfarfod â ffermwyr organig profiadol a chynhyrchwyr eraill sydd hefyd yn trosi eu systemau'n organig. Mae'r Ganolfan yn cynnal Rhaglen Datblygu Organig Cyswllt Ffermio, sy'n cynnwys digwyddiadau ar ffermydd arddangos a grwpiau trafod i ffermwyr, cynadleddau, seminarau, gweithdai a mathau eraill o weithgareddau trosglwyddo gwybodaeth. Cynhelir llawer o'r digwyddiadau hyn ar y cyd â'r Ganolfan Datblygu Tir Glas (GDC).

Mae Cyswllt Ffermio wedi sefydlu Rhaglen Datblygu Sgiliau sy'n galluogi ffermwyr a busnesau coedwigaeth cymwys i hawlio 50% o gyllid tuag at hyfforddiant galwedigaethol a rheoleiddio. Mae hyfforddiant amaeth-amgylcheddol (ee, creu a chynnal cynefinoedd ar y fferm, y dirwedd ac ansawdd dŵr) yn cael ei ariannu'n llwyr ac mae ar gael i ddeiliaid cytundebau Tir Gofal.

Mae'r Ganolfan yn cydlynu ardal organig yn Sioe Frenhinol Cymru ac yn y Ffair Aeaf ac mae'n bresennol yn nigwyddiadau ffermio a sioeau rhanbarthol mawr eraill. Mae Canolfan Ymchwil Organig *Elm Farm* hefyd yn cynnal rhwydwaith ffermydd arddangos yn Lloegr, ac mae gan y *Soil Association* rwydwaith o ffermydd organig sy'n agored i'r cyhoedd yng Nghymru ac yn Lloegr.

4. Darllenwch amdano

Mae amrywiaeth o gyhoeddiadau ar gael gan Ganolfan Organig Cymru, gan gynnwys canllawiau technegol, taflenni ffeithiau a gwybodaeth am bob agwedd ar fwyd a ffermio. Ymwelwch â'r wefan (www.organic.aber.ac.uk) am fwy o fanylion, lawrlwythiadau di-dâl a thanysgrifio i ddau e-fwletin rheolaidd am ddim. Mae'r *Soil Association* hefyd yn cyhoeddi cyfres o ganllawiau technegol a chylchgrawn, *Organic Farming,* sy'n cynnwys eitemau technegol a newyddion. Mae Ffermwyr a Thyfwyr Organig hefyd yn darparu pecyn gwybodaeth ar gyfer ffermwyr chylchlythyrau rheolaidd. Ceir gwybodaeth dechnegol arall gan Fferm Ymchwil Organig *Elm Farm*.

Cyswllt Ffermio

Mae Cyswllt Ffermio'n anelu at gyflenwi ystod eang o wasanaethau i'r gymuned ffermio yng Nghymru, gan helpu busnesau fferm i wneud penderfyniadau gwybodus am eu dyfodol. Mae'r gwasanaethau sydd ar gael yn cynnwys:

- Rhan-ariannu ar gyfer paratoi Cynllun y Fferm Gyfan
- Cyllid 50% tuag at hyfforddiant galwedigaethol a rheoleiddio ar gyfer ffermwyr a busnesau coedwigaethcymwys. Mae hyfforddiant amaeth-amgylcheddol, sydd ar gael i ddeiliaid cytundebau Tir Gofal, yn cael ei ariannu'n llawn
- Mynediad i'r Gwasanaeth Cynghori Ffermwyr, sy'n cynnig cymorth i fusnesau cymwys wrth ateb gofynion trawsgydymffurfio a diwallu rheoliadau amgylcheddol.
- Gweithgareddau trosglwyddo gwybodaeth

Mae gan y prosiect bum rhaglen ddatblygu: Organig; Llaeth; Cig Eidion a Defaid; Defnydd Tir; a newid yn yr hinsawdd. Rheolir y rhaglen gan Ganolfan Organig Cymru ac mae'n cynnwys:

- Rhwydwaith o ffermydd arddangos masnachol a ffermydd datblygiad sefydliadol sy'n cynnwys yr holl brif fentrau organig
- Rhwydwaith o grwpiau trafod organig
- Coladu a lledaenu gwybodaeth a chyhoeddiadau technegol a marchnata i ffermwyr organig.

Mae'n hanfodol bod busnesau fferm a choedwigaeth yn cael eu cofrestru â Chyswllt Ffermio cyn iddynt wneud cais am gymorth tuag at gost y gwasanaethau hyn. I gyrchu'r gwasanaethau hyn a chael hyd i ragor o wybodaeth, cysylltwch â Chanolfan Wasanaeth Cyswllt Ffermio ar 08456 000 813.

Canolfan Organig Cymru

Ariennir Canolfan Organig Cymru, a sefydlwyd yn 2000, gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i fod y canolbwynt ar gyfer gwybodaeth am fwyd a ffermio organig yng Nghymru. Rheolir y Ganolfan gan bartneriaeth o dri sefydliad: ADAS Cymru; Canolfan Ymchwil Organig, *Elm Farm*; a Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS) ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Canolfan Organig Cymru
Organic Centre Wales

Yn ogystal â gwasanaethau i gynhyrchwyr a ddisgrifir uchod, ceir gwybodaeth hefyd ar wefan yGanolfan am y canlynol:

Gwybodaeth a chefnogaeth ar gyfer marchnata a phrosesu: 'Gwell Cysylltiadau ar gyfer Busnesau Organig' (*Better Organic Business Links*, BOBL) – prosiect tair blynedd i adeiladu cysylltiadau gwell trwy'r gymuned busnes organic. Mae'r gweithgareddau penodol yn cynnwys e-bwletin marchnata, cyfarwyddiadur masnachol organig Cymreig ac adroddiadau gwybodaeth y farchnad.

Gwybodaeth i ysgolion a defnyddwyr: Ymweliadau â ffermydd, garddio a bwyd lleol mewn ysgolion. Deunyddiau addysgu a rhwydwaith Tyfu'r Dyfodol i brosiectau sy'n hyrwyddo materion organig mewn ysgolion. Cwestiynau ac atebion ar fwyd organig; Cyfeiriaduron Organig Lleol sy'n rhestru mannau gwerthu ar gyfer cynnyrch organig.

Gwybodaeth i wneuthurwyr polisi a chefnogaeth i'r Grˆwp Strategaeth Organig

Cefnogaeth i gyrsiau Addysg Bellach ac Uwch mewn ffermio organig. Achredu hyfforddwyr (trwy'r Sefydliad Hyfforddiant a Chyngor Organig (IOTA))

5. Gwnewch gais i am gymorth gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

Mae'n bwysig cadarnhau a fyddwch yn derbyn cymorth trwy Glastir *cyn* dechrau trosi'n organig. Cysylltwch â'ch Swyddfa Ranbarthol leol am gwybodaeth i fodloni'r meini prawf.

6. Ystyriwch eich dewisiadau marchnata

Mae llawer o gyfleoedd i farchnata cynnyrch organig Cymru trwy grwpiau cynhyrchwyr, cydweithfeydd, archfarchnadoedd a gwerthiant uniongyrchol. Mae'r Ganolfan yn cynnig gwybodaeth marchnata trwy brosiect BOBL (gweler uchod). Mae Is-adran Datblygu Bwyd, Pysgodfeydd a'f Farchnad (FFMDD) Llywodreath Cynulliad Cymru cynnig cymorth I ddatblygu marchnata a phrosesu organig.

7. Cael eich fferm wedi'i hardystio

Mae ardystio yn broses hollol wahanol i geisio i Lywodraeth Cynulliad Cymru am daliadau cymorth. Fodd bynnag, mae'r taliadau yn amodol ar y ffaith bod y tir wedi'i ardystio, ac wedi aros felly, trwy gyfnod eich cytundeb. Gosodir safonau organig gofynnol gan yr Undeb Ewropeaidd a'u dehongli gan DEFRA o dan arweiniad y Pwyllgor Cynghorol ar Safonau Organig (ACOS), a'u gweithredu gan nifer o gyrff ardystio organig. (Gweler Taflen Ffeithiau 9 Canolfan Organig Cymru.)

Cyflenwad a galw am gynnyrch organig Cymru

Y sector organig yng Nghymru

Oddi ar cyhoeddi Cynllun Gweithredu Organig Cymru deg mlynedd yn ôl, mae tir o dan reolaeth organig wedi cynyddu ar ei ugeinfed. Mae'n bur debyg y bydd dros 114,000 ha ar 1,000 o ddaliadau o dan reolaeth organig yng Nghymru yn 2009.

Cael mynedfa i farchnadoedd a thueddiadau tebygol.

Yn aml, nid oes cytgord rhwng cynhyrchu a gofynion y farchnad. Ar gyfer rhai categorïau; cnydau âr, llysiau, saladau a ffrwythau yn benodol, mae cyflenwad y DU yn rheolaidd yn llai na'r galw, ac o ganlyniad mewnforir canran sylweddol o gynnyrch organig er i'r Llywodraeth, man werthwyr, grwpiau cynhyrchwyr a chynhyrchwyr ymdrechu i gynyddu canran cynnyrch cartref.

Yn dilyn twf parhaus yn y farchnad organig yn ystod 2007-08 mae'r wasgfa ariannol presennol wedi gostwng hyder y cyhoedd, sydd wedi dylanwadu ar ymddygiad gwariant cyffredinol ac ansicrwydd ar sut fydd y farchnad organig yn ymateb.

Os cynllunio i gynhyrchu cig eidion, oen, llaeth neu llysiau a ffrwythau, mae'n hanfodol i' r sawl sy'n ystyried trosi i drafod eu cynlluniau gyda grwpiau cynhyrchwyr neu mudiadau marchnata arall cyn cychwyn trosi.

Gwybodaeth farchnata bellach

Gellir tanysgrifio i adroddiadau gwybodaeth y farchnad, e-bwletin marchnata, cyfeiriadau masnachol a gwybodaeth arall a gynhyrchwyd fel rhan o brosiect BOBL (Gwell Cysylltiadau ar gyfer Busnesau Organig) trwy wefan y Ganolfan. Ceir prisiau organig hefyd yng nghylchgrawn *Organic Farming* y *Soil Association*. Gellir tanysgrifio i'r rhain i gyd neu'u lawrlwytho oddi ar wefan y Ganolfan. Mae Is-adran Datblygu Marchnata Bwyd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cynnig cymorth a rhai grantiau i ddatblygu marchnata a phrosesu organig.

Gwybodaeth gyffredinol a manylion cyswllt

Cyhoeddiadau Cyffredinol

Blake, F. (1994) Organic Farming and Growing. *Crowood Press; Marlborough, Wiltshire*

Davies, G., Turner, R. a Bond W. (2008) Weed Management for Organic Farmers, Growers and Smallholders. *Crowood Press; Marlborough, Wiltshire*

Hopkins, A. (Gol.) (2004) Organic Farming - Science and practice for profitable livestock and cropping. *Cynhadledd BGS/AAB/COR 2004*

Lampkin, N. (1990) Organic Farming. *Farming Press, Ipswich* (ISBN 0 85236 191 2)

Lampkin, N., Measures, M. a Padel, S. (2009) Organic Farm Management Handbook. 8fed Argraffiad. *Cyhoeddwyd ar y cyd gan Brifysgol Cymru a Chanolfan Ymchwil Organig Elm Farm. Ar gael gan Ganolfan Organig Cymru*

Myers, A. (2005) Organic Futures: the case for organic farming. *Green Books, Totnes, Dyfnaint*

Newton, J. (1995) Profitable Organic Farming. *Blackwell Science, Rhydychen*

Wright, S. a McCrea, D. (2000) Handbook of Organic Food Processing and Production. *Blackwell Science; Rhydychen*

Mae rhestr gyhoeddiadau gan gynnwys y llyfrau uchod, llyfrynnau technegol eraill a thaflenni ffeithiau ar gael gan Ganolfan Organig Cymru. Gellir lawrlwytho e-fwletinau misol rheolaidd a Marchnad Organig Cymru oddi ar gwefan Canolfan Organig Cymru

Mae Canllawiau Technegol y *Soil Association*, y cylchgrawn *Organic Farming* a chatalog llyfrau am ddim sy'n rhoi manylion am lawer o gyhoeddiadau eraill sy'n ymwneud â hwsmonaeth organig ar gael gan y *Soil Association* www.soilassociation.org.uk

Gwlad, cylchgrawn a gyhoeddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

Erthyglau eraill yn y wasg ffermio gan gynnwys *Farmers' Weekly* a'r *Guardian* a'r *Western Mail*

Cylchlythyr *Organic Inform* – rhagor o wybodaeth ar www.organicinform.org

Bwletin Canolfan Ymchwil Organig *Elm Farm* – ewch at www.organicresearchcentre.com

The Organic Grower - yn benodol i arddwriaeth, rhagor o wybodaeth ar www.newoga.org.uk

Cyhoeddiadau ar gyfer cnydau penodol

Âr

Briggs, S. (2008) Organic Cereal and Pulse Production. *Crowood Press; Marlborough, Wiltshire*
Yr Awdurdod Ydau Cartref, Organic arable farming – conversion options, ar gael gan Ganolfan Organig Cymru.
Younie, D., Taylor, B. R., Welsh, J. P & Wilkinson, J. M (golygyddion) (2002) Organic Cereals and Pulses. *Chalcombe Publications, Lincoln*

Garddwriaeth

Bevan, J. (2001) Organic Strawberry Production – a grower's guide. *HDRA; Ryton (Canllaw technegol)*
Bevan, J. a Knight, S. (2001) Organic Apple Production – pest and disease management. *HDRA; Ryton*
Davies, G. a Lennartsson, M. (Golygyddion) (2006) Organic Vegetable Production. *Crowood Press; Marlborough, Wiltshire*
Hall, J. a Tolhurst, I. (2006) Growing Green – Organic techniques for a sustainable future. *Vegan Organic Network*
Little, T; Frost, D (2008) 'A farmers guide to organic fruit and vegetable production' *Canolfan Organig Cymru*

Da byw

Frost, D et al 2009 'Organic beef and sheep production in the uplands' *Canolfan Organig Cymru*
Vaarst, M., Roderick, S., Lund, V. a Lockeretz, W. (Golygyddion) (2004) Animal Health and Welfare in Organic Agriculture. *CABI Publishing; Wallingford*
Weller, R; Jackson, A: (2009); Organic Dairy Production *Canolfan Organig Cymru*
Younie, D. a Wilkinson, J. M (golygyddion) (2001) Organic Livestock Farming. *Chalcombe Publications, Lincoln (ISBN 0 948617 45 4)*

Cyrff Ardystio

Biodynamic Agricultural Association
Demeter Scheme Coordinator, 25 Boswall Road, Caeredin EH5 3RR
Ffôn: 0131 552 6565; Ffacs: 0131 552 6565
E-bost: demeter@ biodynamic.org.uk
www.biodynamic.org.uk/

Organic Farmers & Growers Ltd
The Old Estate Yard, Albrighton, Amwythig, Swydd Amwythig SY4 3AG
Ffôn: 0845 330 5122 Ffacs: 0845 330 5123
E-bost: info@organicfarmers.org.uk
www.organicfarmers.org.uk

Organic Food Federation
31 Turbine Way, Eco Tech Business Park, Swaffham, Norfolk PE37 7XD
Ffôn: 01760 720444; Ffacs: 01760 720790
E-bost: info@orgfoodfed.com
www.orgfoodfed.com

Ardystio Bwyd Cymreig Safonol Cyf.
Gorseland, Ffordd y Gogledd, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 2WB
Ffôn: 01970 636688, Ffacs 01970 624049
E-bost: qwfc@wfsagri.net

Soil Association Certification Ltd
South Plaza, Malborough St., Bristol BS1 3NX
Ffôn: 0117 9142406
E-bost: goorganic@soilassociation.org

Cwmnïau ymgynghori

Abacus Organic Associates Ltd
61 Robey Park Road, Neston, South Wirral, Swydd Gaer CH64 9SW.
Ffôn: 0151 336 2506
E-bost: gareth.jones@abacusorganic.co.uk
www.abacusorganic.co.uk

ADAS UK Ltd
ADAS Pwllpeiran, Cwmystwyth, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 4AB
Ffôn: 01974 282229; Ffacs: 01974 282302
E-bost: sian.lloyd@adas.co.uk
www.adas.co.uk

AgriPlan Cymru,
Neuadd Mansion, Llanarth, Ceredigion, SA47 0RL
Ffôn: 01545 581130
E-bost: office@agriplancymru.co.uk
www.agriplancymru.com

Kite Consulting
Park Farm, Wrexham Road, Tarporley, Swydd Gaer CW6 9SA
Ffôn: 01829 261700
E-bost: ainsley@bakerconsulting.fsnet.co.uk

Organic Advisory Service
Organic Research Centre Elm Farm
Hamstead Marshall, Newbury, Berks, RG20 0HR
Ffôn: 01488 658279; Ffacs: 01488 658503
E-bost: elmfarm@organicresearchcentre.com
www.organicresearchcentre.com

Sefydliadau sy'n cefnogi ffermwyr organig

Biodynamic Agricultural Association
Demeter Scheme Coordinator, 25 Boswall Road, Caeredin EH5 3RR
Ffôn: 0131 552 6565; Ffacs: 0131 552 6565
E-bost: demeter@ biodynamic.org.uk
www.biodynamic.org.uk/

Organic Research Centre Elm Farm
Hamstead Marshall, Newbury, Berks, RG20 0HR
Ffôn: 01488 658279; Ffacs: 01488 658503
E-bost: elmfarm@organicresearchcentre.com
www.organicresearchcentre.com

Garden Organic
(Henry Doubleday Research Association gynt)
Ryton Organic Gardens, Coventry CV8 3LG
Ffôn: 024 7630 3517; Ffacs: 024 7663 9229
E-bost: enquiry@gardenorganic.org.uk
www.gardenorganic.org.uk

Canolfan Datblygu Tir Glas
IBERS, Plas Gogerddan, Aberystwyth SY23 3EB
Ffôn: 01970 823026
E-bost: hym@aber.ac.uk
www.grassdevcentre.co.uk

Canolfan Organig Cymru
Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig,
Prifysgol Aberystwyth, Ceredigion SY23 3AL
Ffôn: 01970 622248; Ffacs: 01970 622238
E-bost: organic@aber.ac.uk
www.organic.aber.ac.uk

Llinell Gymorth Canolfan Organig Cymru
Ffôn: 01970 6222100
E-bost: organic-helpline@aber.ac.uk

Soil Association Food and Farming Department
South Plaza, Marlborough Street, Bryste BS1 3NX
Ffôn: 0117 914 2400; Ffacs: 0117 925 2504
E-bost: ff@soilassociation.org
www.soilassociation.org

Sefydliadau ymchwil ac addysgol

ADAS Pwllpeiran
Cwmystwyth, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 4AB
Ffôn: 01974 282229; Ffacs: 01974 282302
E-bost: Owen.Davies@adas.co.uk
www.adas.co.uk

Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS)
Prifysgol Aberystwyth, Aberystwyth, Ceredigion SY23 3AL
Ffôn: 01970 624471; Ffacs: 01970 611264
E-bost: ibers@aber.ac.uk;
www.aber.ac.uk/ibers

Coleg Garddwriaeth Cymru
Llaneurgain, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint CH7 6AA
Ffôn: 01352 841000; Ffacs: 01352 841031
E-bost: enquiries@wcoh.ac.uk
www.wcoh.ac.uk

Asiantaethau'r Llywodraeth

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Plas Penrhos, Ffordd Penrhos, Bangor, Gwynedd, LL57 2LQ
Ffôn: 01248 370444; Ffacs: 01248 355782
www.ccw.gov.uk

Asiantaeth yr Amgylchedd
Ffoniwch 0845 9333111 i gael eich trosglwyddo i'ch swyddfa leol.
E-bost: enquiries@environment-agency.gov.uk
www.environment-agency.gov.uk

Cyswllt Ffermio
08456 000813
www.wales.gov.uk/farmingconnect

Swyddfeydd Rhanbarthol Llywodraeth Cynulliad Cymru
Caernarfon Swyddfa Ranbarthol, Adeiladau'r Llywodraeth, Penrallt, Caernarfon, Gwynedd LL55 1EP
Ffôn: 01286 674144; Ffacs: 01286 677749
E-bost: agriculture.caernarfon@wales.gsi.gov.uk
Caerfyrddin Swyddfa Ranbarthol, Adeiladau'r Llywodraeth, Rhes Picton, Caerfyrddin SA31 3BT
Ffon: 01267 225300; Ffacs: 01267 235964
E-bost: agriculture.carmarthen@wales.gsi.gov.uk
Llandrindod Swyddfa Ranbarthol, Adeiladau'r Llywodraeth, Spa Road East, Llandrindod, Powys LD1 5HA
Ffôn: 01597 823777; Ffacs: 01597 828304
E-bost: agriculture.llandrindod@wales.gsi.gov.uk
Is-adran Datblygu Bwyd, Pysgodfeydd a'f Farchnad (FFMDD) Llywodreath Cynulliad Cymru
Caryl Tudor Jones, Rheolwr Sector Organig, Y Lanfa, Trefechan Aberystwyth Sy23 1AS
Ffôn: 01970 613216
E-bost: Caryl.tudorjones@cymru.gsi.gov.uk

Ariennir Canolfan Organig Cymru, a sefydlwyd yn 2000, gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, i fod y canolbwynt ar gyfer gwybodaeth am fwyd a ffermio organig yng Nghymru. Rheolir y Ganolfan gan bartneriaeth o dri sefydliad: ADAS Cymru; Canolfan Ymchwil Organig Elm Farm; a Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS) ym Mhrifysgol Aberystwyth

Gorffennaf 2009
Ni all Canolfan Organig Cymru na'i phartneriaid dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am ganlyniadau unrhyw gamau gweithredu a gymerir ar sail ei chyhoeddiadau.